Cofnodion cyfarfod 13 Mehefin 2017 a gynhaliwyd yng Nghapel Bethania am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Daniel Williams	Mei Gwilym	
Iestyn Harris	Eifion Williams	
Nerys John	Peter Simpson	
Sarah Riley		
Wynne Barton - Swyddog Ariannol	Cynghorydd Sir - Gareth Griffiths	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
1.1	Agorwyd y cyfarfod misol gan y Cadeirydd Daniel Williams. Ymddiheuriadau: Casi Roberts, Aled Emyr a Gruff John. Estynnwyd cydymdeimlad y Cyngor at Casi, Aled a theulu'r diweddar Mike Roberts Delwedd yn eu profedigaeth. Cafwyd ennyd o ddistawrwydd fel arwydd o gydymdeimlad.	
2.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD**	
	Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig mis Mai.	
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Dim	
4.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD BLAENOROL**	
4.1	Cadarnhawyd gwariant mis Mai 2017 a derbyniwyd yr adroddiad ariannol.	
4.2	Cydnabuwyd adnewyddu yswiriant (Zurich) am y flwyddyn 2017-2018. Mae'r Cyngor yn parhau mewn cytundeb o dair blynedd.	
4.3	Derbyniwyd adroddiad yr Archwiliwr Mewnol John Roberts yn cymeradwyo'r cyfrifon ac nid oedd unrhyw fater yn codi. Arwyddwyd ffurflen BDO ar gyfer eu hanfon am archwiliad allanol.	
4.4	Roedd is-bwyllgor cyflogaeth wedi cyfarfod a phenderfynwyd bod gweithwyr y Cyngor I dderbyn codiad yn unol graddfa 2017-2018 NALC a chodiad yr ofalwraig yn unol â chwyddiant.	
5.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL**	
5.1	Derbyniwyd cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a chyfarfod mis Mai 2017 fel rhai cywir. Llofnodwyd y Cofnodion	
6.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y NEUADD**	
6.1	Cafwyd cadarnhad bod Zurich yn barod i roi arian ychwanegol ar gyfer cwblhau gwaith cynnal ar y to. Y Clerc i gysylltu â'r adeiladwyr i symud ymlaen a'r gwaith.	CLERC
6.2	Dywedodd y Cadeirydd y Byddai o fud dos byddai Peter Wray ar y safle gyda Peter Cox Preservation pan fydd archwiliad i'r dry/wet rot. Bydd Peter Wray yn codi £65 yr awr am ei wasanaeth. Cytunodd y Cyngor i symud	CLERC

	ymlaen a'r archwiliad	
6.3	Dywedodd y Cadeirydd bod gwaith ynglŷn â'r tamp o fewn y Neuadd wedi ei flaenoriaethu ac un o'r blaenoriaethau oedd delio a'r "Arco Drains". Mae tyllau wedi eu gwneud o fewn iddynt sydd yn gollwng dŵr i ffabric yr adeilad. Cost o wneud y gwaith yw £480 & TAW. Mae Adroddiad Peter Wray wedi ei anfon at y Pensaer blaenorol ond hyd yma nid oed ymateb wedi bod. Cynigiodd y Cynghorydd Iestyn Harris ac eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Nerys John I wneud y gwaith ac yna ystyried cynnwys yr ymateb wedyn Penderfynwyd gwneud y gwaith	DW
7.0	**ADRODDIAD COFEB Y CLOC**	
7.1	Mae Blodau wedi eu gosod o amgylch y cloc. Roedd y Cyngor wedi derbyn diolch am hyn gan Mr White.	
7.2	War Memorial wedi gofyn am ychydig o wybodaeth ychwanegol. Y Clerc wedi anfon at y Pensaer a'r Contractwr ar gyfer hyn.	
8.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
8.1	C17/0471/20LL - estyniad i adeilad amaethyddol a ganiatawyd yn flaenorol fan C16/0801/20/LL er mwyn darparu ardal trin gwartheg i ochr yr adeilada ganiatawyd - Parciau Farm, Griffiths Crossing, Caernarfon LL55 1TS - DIM GWRTHWYNEBIAD.	
8.2	Hysbyseb Apêl C16/0724/20/AM - tir ger Canolfan Iechyd, Ffordd Glan y Môr, Y Felinheli - GWYBODAETH	
9.0	**ADRODDIAD Y FYNWENT**	
9.1	Cafwyd gwybodaeth bod y giât ar gyfer ochr pori o'r fynwent wedi pydru. Penderfynwyd bod y Cadeirydd yn gwneud ymholiadau ar gyfer giât newydd	DW
9.2	Y Clerc i newid y wybodaeth ar fwrdd gwybodaeth yn y Fynwent ac anfon copi i'r Cadeirydd.	
9.3	Dywedodd y Swyddog Ariannol bod cost flynyddol o symud gwastraff o'r fynwent yn £845 eleni. Mae'r Swyddog Ariannol mewn trafodaethau a Chyngor Gwynedd ac yn disgwyl ymateb.	
10.0	**ADRODDIAD MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH**	
10.1	Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi bod yn siarad â pherchennog y Sied o fewn y Maes Parcio ynglŷn â chodi arwyddion dim parcio. Nid oedd gan y perchennog unrhyw wrthwynebiad.	
10.2	Dywedodd y Cadeirydd hefyd ei fod wedi bod	DW/EW

	yn egluro bwriad y Cyngor ynglŷn ag adnewyddu ac ail leoli'r safleoedd parcio i denantiaid newydd y Sied. Y Cadeirydd hefyd i wneud ymholiadau ar gyfer cael prisiau i'r arwyddion. Bydd y Cadeirydd yn trefnu ymweliad safle gyda'r Cynghorydd Eifion Williams ar gyfer trefnu'r ail linellu.	
10.3	Penderfynwyd bod eitem i drafod cyflwyno blodau gwyllt i ran o'r don yn cael ei roi ar agenda mis Medi.	
10.4	Oherwydd bod arwyddion 30 Allt Llwyn yn rhan o gyfrifoldeb Cefnffyrdd, a hwy sydd yn gyfrifol am dorri'r gordyfiant bydd y Cynghorydd Eifion Williams yn cyfeirio'r mater at y swyddogion perthnasol.	EW
11.0	**ADRODDIAD LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU A MEINCIAU**	
11.1	Cafwyd y diweddariad am lwybr Afon Heulyn gan Gareth Griffiths. Nid yw'r gwaith wedi cychwyn ar hyn o bryd oherwydd bod pris contract neud y gwaith bellach yn hyn na thri mis oed a ddim yn gyfredol. Pan fydd y Cyngor wedi derbyn prisiau newydd bydd dyddiad cychwyn y gwaith yn gallu cael ei drefnu.	
11.2	Trafodwyd bod mainc ger Carreg Goch wedi eu cuddio gan dyfiant. Roedd un o'r Cynghorwyr am ofalu bod y gwair yn cael ei dorri.	NJ
11.3	Cafwyd gwybodaeth bod Cyngor Gwynedd wedi llythyru perchnogion pob ochr i'r llwybr linc o Frynffynnon i dorri'r tyfiant. Credir mai oelion y torri hwn yw'r brigau ar y llwybr.	
11.4	Roedd Youth justice yn barod i baentio'r meinciau ar Lan y Môr ond nid yw Cyngor Gwynedd yn fodlon i hyn ddigwydd oherwydd iechyd a diogelwch, asesiadau risg a.y.b. Bydd modd iddynt baentio meinciau o eiddo'r Cyngor Cymuned. Y Cynghorydd Sarah Riley am ddilyn hyn i fyny.	
12.0	**ADRODDIAD PRIFFYRDD**	
12.1	Derbyniodd y Cyngor Adroddiad gan ddeilydd ardal y Marina am barcio a gyrru gwael. Penderfynodd y Cyngor gefnogi'r gwyn. Y Clerc i Anfon at Gyngor Gwynedd yn ategu'r gwyn a chefnogi cyflwyno mesuriadau atal parcio.	CLERC
12.2	Cyflwynwyd ymateb y Cyngor Sir ynglŷn â Lôn Bethel. Penderfynwyd derbyn bod gwaith gan Watkin Jones fel rhan o ddatblygiad Ger y Nant i ymylon y ffordd wedi ei gwblhau; er hynny bod angen anfon at Gyngor Gwynedd yn gofyn a byddent yn ymdrin â'r ymylon sydd heb dderbyn gwaith ar sail bod iechyd a diogelwch i gerddwyr. Y Clerc i anfon at Wynedd ynglŷn â	CLERC

	hyn.	
12.3	Cafwyd gwybodaeth bod tyllau (category 1) ar Ffordd Llwyn bellach wedi eu llenwi. Tyllau eraill wedi eu rhoi ar restr waith.	
12.4	Derbyniwyd gwybodaeth bod gully rhwng Aberpwll a Nant y Garth angen sylw'r Cyngor Sir - Y Clerc i gysylltu â'r Cyngor.	CLERC
13.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
	Dim i'w adrodd	
14.0	**TOILEDAU CYHOEDDUS**	
	Dim i'w adrodd	
15.0	**GWEFAN**	
15.1	Dim i'w adrodd	
16.0	**MATERION AMRYWIOL**	
16.1	Gwydrwch Cymunedol - Penderfynwyd anfon gwahoddiad i'r Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng i gyfarfod Mis Medi.	CLERC
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 09:15	
Llofnod:		Dyddiad: